# Y LLINYN ARIAN

**Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon. Ebrill 2024**

**Yr oeddem ni yno - Gwilym R Jones**



Mae ar ein traed-ni laid Caersalem
O'r Pasg y flwyddyn Tri-deg-tri;
Mae ar ein dwylo greithiau'r ddraenen honno
A blethwyd gennym at yr uchel sbri,
O! yr oeddem ninnau yno,
Ond 'rydym rywsut wedi hen anghofio



Fe grach-boerasom ninnau'n wyneb Cariad
Pan faglai dan y pren ar stryd y dref,
Ei bwnio yn ei gefn ă dwrn a phastwn
A sgrechian gyda'r dorf; "Croeshoeilier Ef!"
O! yr oeddem ninnau yno,
Ond 'rydym rywsut wedi hen anghofio

O'n ffowndri ni y daeth yr hoeilion
A'r wawy-ffon a'I gwanodd O.–
Mae arian Rhufain fawr a'r Archoffeiriad
Yn dal i'n dallu yn uffernau'r co'
O! yr oeddem ninnau yno,
Ond 'rydym rywsut wedi hen anghofio




Safasom dan y teircroes dan fytheirio
I wylio'i waed yn tasgu hyd y llawr,
Am na chodasom fys i arbed y diniwed,
Nyni sy'n euog o'r Fradwriaeth Fawr .
O ! Yr oeddym ninnau yno
A byth ni ddylid gadael inni ei anghofio.

**OEDFAON PASG SALEM yn y Capel ac ar Zoom**

**Nos Iau Cablyd am 7 o'r gloch : Eglwys Santes Fair**
**Bore Gwener Groglith am 10 o'r goch—Oedfa Gymun yn Salem.**
**Nos Wener y Groglith am 7 yn Salem : 'A oeddem yno?'**
**Bore Sul y Pasg am 10 : Oedfa Gymun -yn yr oedfa derbynnir dwy o'n pobol ifanc yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist .**

**Gair gan y Gweinidog**



Geiriau glywn yn aml yr adeg yma yw: 'Mae'r Pasg yn gynnar eleni? A fydd y ffaith yma'n gwneud gwahaniaeth i ni? I fusnesau sy'n dibynnu ar dwristiaeth, mae'r wythnosau cyn y Pasg yn amser prysur o gael pob dim yn barod i'r ymwelwyr. Does dim o'i le fod busnesau obeithio bydd cyfnod y Pasg eleni yn llewyrchus. Bydd y rhai profiadol ym myd busnes yn medru dweud fod unrhyw obaith o lwyddo'n dibynnu ar ymroddiad, dyfalbarhad ac oriau hir. Ond weithiau, er ymroi'n ddiflino ni ellir osgoi'r blaidd o'r drws. Gall nifer o ffactorau fod yn gyfrifol; cynnydd mewn prisiau ac amgylchiadau'n newid. Clywn am lawer y dyddiau hyn yn profi sefyllfa fel hyn. Teimlwn i'r byw drostynt gan obeithio daw dyddiau gwell.

Pan feddyliwn am 'obaith', caiff ei herio o bob cyfeiriad. Weithiau pan fydd profiadau bywyd yn anodd, ymddengys fod gobaith yn diflannu'n gyfangwbwl neu simsanu. Gyda digwyddiadau yn y Dwyrain Canol heddiw oni obeithiwn yn ddyddiol am gadoediad? Gofynnwn am ba hyd y mae'r gyflafan bresenol, sy'n un o'r rhai mwyaf erchyll yn hanes dynoliaeth i barhau?
Ni ryfeddwn gyda'r hyn sy'n digwydd yno a mewn mannau eraill lle profir gwrthdaro gan fod yr hyn a brofir heddiw yn ganlyniad o'r had blannwyd ddoe. Hadau casineb, anghyfiawnder, bwlio, gwrthod caniatau yr un cyfleusterau i bawb. 'Dydy grawnwin ddim yn tyfu ar ddrain, na ffigys ar ysgall. Felly lle mae ffrwyth da mae coeden iach, ond os ydy'r ffrwyth yn ddrwg mae'r goeden yn wael. Dydy ffrwyth drwg ddim yn tyfu ar goeden iach, na ffrwyth da ar goeden wael!' medd Iesu .
Dechrau'r mis cawsom gyfle i ddathlu Gŵyl ein nawddsant Dewi ac ymhob dathliad oedd yn rhoi lle canolog i'n nawddsant cyfeiriwyd at ei eiriau olaf, sef "*Arglwyddi, brodyr, a chwiorydd, Byddwch lawen a chadwch eich ffyd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac y welsoch gennyf.* Does dim amheuaeth gennyf pan lefarodd Dewi'r geiriau iddo obeithio iddynt gael eu gwireddu gan y Cymry.
A ninnau ar drothwy prif Ŵyl y ffydd Gristnogol sy'n cychwyn ar Sul y Blodau (24ainMawrth) hyd Sul y Pasg ( 31) cydiwn yn yr addewid o obaith sydd i'r rhai sy'n credu yn Iesu a ddioddefodd ar Galfaria ac a atgyfodydd ymhen tridiau fel yr addawodd .Gweddiwn gyda'rApostol yn ei lythyr at y Rhufeiniaid: '*Felly dwi'n gweddïo y bydd Duw, ffynhonnell gobaith, yn llenwi'ch bywydau gyda'r llawenydd a'r heddwch dwfn sy'n dod o gredu ynddo; ac y bydd yr Ysbryd Glân yn gwneud i obaith orlifo yn eich bywydau chi!*



Ydy, mae'r Pasg yn gynnar eleni ond yr un yw'r gobaith ddangoswyd gan Iesu Grist.

**CYDYMDEMLWN Â**

Mrs Glenys Jones ym marwolaeth sydyn ei phriod Leslie, tad John Garry, Marc a Glen

Mrs Iona Hughes , Ifor a Bethan Glyn ym marwolaeth brawd i Mrs Hughes
Mrs Nia a Alun Rhys ym marwolaeth mam Nia .

‘Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano,
hedd, nefol hedd, a ddaeth drwy ddwyfol loes,
pan fyddo’r don ar f’enaid gwan yn curo
mae’n dawel gyda’r Iesu wrth y groes .

**YN YR YSBYTY** -Miss Branwen Edwards

**CYFNOD YN YR YSBYTY**

| | | |
|---|---|---|
| Mr Elwyn Griffiths | Mrs Edwina Parry | Angharad Williams |
| Mrs Bethan Howel | Menai Davies | Gwion Rhys |

Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf i’r rhai mewn **CARTREFI PRESWYL**.
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartref BrynRhos, Brynsiencyn : Mr Derwyn Roberts
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
LLONGYFARCHIADAU i Mrs Grace Dawson a Mrs Sheila Jones ar eu penblwydd yn 90 oed




Roedd dydd Gwener 9ed o Chwefror yn ddiwrnod gwahanol yng nghartref Golwg yr Wyddfa , Llanberis gan fod Mrs Gweneirys Jones yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed. Bydd unrhyw un sy’n ymweld â hi yn gwybod y cewch sgwrs ddiddorol bob amser a chlywed llu o atgofion cyfoethog ganddi.

**I Nain yn Gant Oed**

Chwefror Nain, a chyfrwn ninnau – ei hoed
a hyd ei degawdau...
I’w mesur y mae eisiau
llinell hir, hir, sy’n parhau!

Rhys 9.2.24

**Braf yw cael Prifardd yn y teulu i roi cyfarchion !**



**PENBLWYDD CAPEL SALEM . 1862—2024**




Fel arfer dathlwn benblwydd yr achos ar yr ail Sul yn mis Mai sef 12 Mai eleni. Yn y gorffennol yr ydym wedi dathlu drwy gynnal ein Gŵyl Bregethu gan wahodd gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad. Eleni, newidir y drefn a gweinidogion yr eglwys fod yn gyfrifol am yr oedfa ddathlu!

Cyn cyfnod Covid, trefnwyd cinio canol dydd ar Sul y dathlu . Os oes dymuniad am ginio ar y Sul a fyddwch mor garedig a rhoi gwybod i Heddwen Lois cyn diwedd y mis i wneud trefrniadau os fydd angen.

Hefyd ar benblwydd yr achos gwneir casgliad arbennig at **Y GWELLIANNAU**. Mae Casgliad Y GWELLIANNAU a’r DIOLCHGARWCH ( mis Hydref) yn ddau gasgliad arbennig a wneir yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen ein hatgoffa fod costau cynnal pob dim yn cynyddu. Diolch am y gofal ddangoswyd gan nifer o’r aelodau i sicrhau fod eu cyfraniadau yn cyrraedd ein trysorydd. Gwerthfawrogwn yn ddiffuant yr ymdrech a ddangoswyd gennych. Yn agosach i’r dyddiad, dosbarthir amlenni ar gyfer Casgliad y Gwelliannau. Croesewir yn fawr y newid patrwm o gyfrannu sy’n digwydd yn yr eglwys o gyfrannu drwy drosglwyddiad banc. Mae cyfrannu uniongyrchol i’r banc yn arbed costau bancio. Sylweddolwn nad yw hyn yn ymarferol i bawb ac felly croeso i unrhyw aelod anfon ei cyfraniad yn yr amlen ar gyfer Casgliad y Gwelliannau .
*Os ydych am gyfrannu at y capel, gellir gwneud hynny drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Côd:40-16-02 Rhif y cyfri:70724556.** Enw’r Cyfri: Salem Congregtional Chapel Cofiwch **nodi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Nodwch hefyd : CASGLIAD GWELLIANNAU neu OFFRWM WYTHNOSOL.**



**MANYLION CYSYLLTU ZOOM : 89967405728 Cyfrinair 1588**

**SAFWE CAPEL SALEM : www.capelsalemcaernarfon.com**





**Ers 1973 mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi codi arian i bosiectiau ym Mangladesh, Zimbabwe, Canolbarth America, De Swdan, Israel a Thiroedd y Meddiant, De Affrica a Haiti. Yn ogystal rydym wedi dysgu llawer am amgylchiadau pobl yn y gwledydd tlotaf a chael ein hysbrydoli gan eu hymdrechion i ddianc o gylch dieflig tlodi . Rydym hefyd, gobeithio, yn deall yn well yr anghyfiawnder sydd wrth wraidd cymaint o broblemau ein byd .**
**Mae Ffynhonau Byw yn rhoi sylw i Golombia, gwlad y mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio ynddi ers dros 20 mlynedd . Bydd llawer yn cysylltu Colombia gyda gwrthdaro a thrais gwleidyddol a'r brwydro gwaedlyd i reoli'r farchnad mewen cocĕn, a fu mor andwyol i'r wlad am hanner canrif a mwy .**
**Mae'r 7 apel enwadol a drefnwyd gan yr Undeb ers 1973 i Gymorth Cristnogol wedi codi cyfanswm o £927.359.66.Gyda ychydig o ymdrech rwy'n siwr y gallwn groesi'r miliwn gyda Apel Ffynhonau Byw.**

**Am fanylion pellach ynghlyn a'r Apel ewch i wefan Undeb yr Annibynwyr : annibynwyr.cymru/ffynhonaubyw.**

**Bydd cyfle yn ystod MIS MAWRTH i gyfrannu at yr Apel . Bydd yr Apel yn cau nos Sul y Pasg 31 Mawrth. Rhoddir amlen perthnasol gyda'r LL.A ond does dim rhaid defnyddio'r amlen. Gellir cyfrannu'n syth i gyfrif Capel Salem.**
**Manylion y cyfrif : Côd:40-16-02 Rhif y cyfri:70724556.** Enw'r Cyfri: Salem Congregtional Chapel
Cofiwch **nodi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod a CHOFIWCH NODI APEL FFYNHONAU BYW ( C.C)**
















## DATHLU GŴYL DEWI

Roedd dau gyfle i ddathlu Gwyl Dewi yn Salem eleni. Cafwyd oedfa deulu ar 3 Mawrth a'r noson ganlynol cafwyd Brethyn Cartref yn y festri. Diolch i blant Ty Capel; Elsi, Begw a Lleu am fod yn brysur yn paratoi crefft Gwyl Dewi ar gyfer y gwasanaeth a canu a chwarae'r piano ar y Nos Lun. Diolch hefyd i Mia a'i mam Elen am gymryd rhan yn y gwasanaeth. Da oedd cael clywed y ddau frawd Ioan a Gwion Rhys yn canu unawdau eisteddfod yr Urdd—roeddech i gyd yn wych! Cafwyd perfformiad arbennig hefyd gan Elen Medi a Mererid o un o ganeuon Cor Syr Hugh n'ol o'r 90au; Cariad yw Duw. Roedden nhw'n cofio reit dda chwarae teg!





## CYFUNDEB GOGLEDD ARFON



Yng nghyfarfod diwethaf Cyfundeb Gogledd Arfon a gyfarfu ym Methlehem Tal-y-Bont, trosglwyddwyd y llywyddiaeth i un o'n gweinidogion; Mererid Mair. Roedd Parch Alan Spencer, Llanrwst yn gorffen ei dymor fel cadeirydd a'r Parch John Pritchard, Llanberis yn gorffen fel ysgrifennydd. Bydd Parch Casi Jones, gweinidog Emaus Bangor yn dod yn ysgrifennydd. Dymunwn bob bendith iddynt ar ddechrau eu tymor gan ddiolch i Mr Neville Hughes am barhau fel trysorydd.



***!DYDDIADAU I'W COFIO***

***12 Mawrth ( Mawrth ) Cyfarfod y Grawys yn Eglwys Pentecostaidd . Cawl am 1 o'r gloch  Myfyrdod am 2.***

***20 Mawrth  ( Mercher)  Cyfarfod y Grawys am ynn Nghapel y Maes am 6.30 ( Cyfarfod Saesneg )***

***21 Mawrth ( Iau )  7 o'r gloch Apel FFYNHONNAU BYW***

***Noson yn Festri Salem  i groesawu Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol  Dr Gwyn Williams, Porthmadog i Gaernarfon ar ôl iddynt gerdded o amgylch Llyn Padarn. Bydd y ddau yn cerdded o amgylch pump o lynoedd Eryri i godi arian at yr Apel a codi ymwybyddiaeth o'r thema: Ffynhonnhau Byw.***

***24 Mawrth—SUL Y BLODAU***

***28 Mawrth : Nos Iau Cablyd—Oedfa Gymun yn Eglwys Santes Fair am 7***

***DYDD GWENER Y GROGLITH :***

***Bore am 10 :   Oedfa Gymun***

***Am 11 : Gorymdaith y Pasg o amgylch y dref***

***Hwyr am 7 yn Salem  : ' Munudau i  feddwl - A oeddem yno ?***

***31 SUL Y PASG : Oeddfa Gymun  am 10 o'r gloch***

***8 Mai : Cyfarfod Cyfundeb Gogledd Arfon ym Methel Pentrefoelas . Cawn gwmni llywydd UAC Parch Jeffrey Williams***

***12 MAI : Penblwydd Capel Salem***

***12-18  MAI*  WYTHNOS CYMORTH CRISNOGOL  12-18 .**

### *TARO MEWN*



Cafodd criw Taro Fewn ddwy wledd wrth ddathlu Gwyl Dewi. Cafwyd cawl blasus gan Age Cymru Gwynedd a Môn ac yna datganiad ar y piano gan y pianydd a'r cerddor amryddawn; Meurig Thomas. Mae bob amser croeso i unrhyw un ddod i Taro Fewn—beth am alw draw bore Mawrth am 10:30 –11:30.




Mae **Hafan** yn brosiect pwysig yn y dref .
Mae Hafan yn brosiect sydd yn cynnig amser , pob wythnos , i bobl ddod i ymdawelu, i fyfyrio, i oleuo cannwyll, i ddod o hyd i ryw dawelwch o brysurdeb bywyd, i gael clust i wrando, i gael cwmni eraill.  Am fanylion pellach, cysylltwch â Mererid